



Casia Wiliam

Dwedwch ychydig wrthym am y llyfr.

Mae *Sw Sara Mai* yn dilyn hanes Sara Mai, merch 9 oed sydd yn licio glanhau pw eliffant mwy na mynd i'r ysgol! Mae ambell un yn pigo ar Sara Mai yn yr ysgol am ei bod hi'n edrych yn wahanol, a hefyd mae bygythiad mawr i'r sw... dyma stori antur, llawn anifeiliaid, sydd â digon o bethau i wneud i blant os chwerthin, gobeithio!

Sut brofiad oedd ysgrifennu'r llyfr?

Hyfryd a gwahanol. Roeddwn i wedi bod yn meddwl am y stori am amser hir – misoedd! Ac yn y diwedd fe wnes i ei hysgrifennu yn sydyn – y cwbl bron mewn un penwythnos.



Oed 7–11 Y Lolfa
ISBN: 9781784618629

holi Casia Wiliam



1. Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Yn Llangefni nes yr oeddwn i'n chwech ac yna yn Nefyn ym Mhen Llŷn.

2. Ble cawsoch chi eich addysgu?

Ysgol Nefyn, Ysgol Botwnnog, Coleg Meirion Dwyfor ym Mhwllheli ac yna ym Mhrifysgol Aberystwyth.

3. Beth oeddech chi'n ei hoffi/ei gasáu am yr ysgol?

Roeddwn i'n licio'r gwersi Cymraeg a Saesneg, a'r pwddin *rice crispies* siocled, ond roeddwn i'n casáu rheolau hollol wirion, fel dim ond yn cael gwisgo cotiau du. Hollol hurt!

4. Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?

Doeddwn i erioed yn rhy siŵr, a tydw i dal ddim yn siŵr! Roeddwn i awydd bod yn geidwad sw ar un adeg – dyna pam fy mod wedi sgwennu *Sw Sara Mai*.

5. Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn?

Roeddwn i'n hoff iawn o *Lleud yn Olau* gan T. Llew Jones, a straeon Alffi a Lili Mei pan oeddwn i'n fach iawn. Yna yn fy ardegau roeddwn i wrth fy modd gyda llyfrau Judy Blume.

6. Beth yw eich diddordebau?

Ysgrifennu'n greadigol, darllen, coginio a chrwydro.

7. Beth sy'n gwneud chi'n hapus?

Fy meibion, prynhawn dydd Gwener – a siocled!

8. Beth sy'n eich gwylltio?

Pobl sydd ddim yn codi baw ci!

9. Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?

Dwi ddim yn cofio meddwl am ysgrifennu erioed, dim ond gwneud. Roedd o'n rhywbeth naturiol iawn. Does gen i ddim cof o beidio ysgrifennu straeon bach a hanesion.

10. O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

Wrth fynd am dro neu fynd ar fy meic. Dwi'n fusneslyd iawn – mae hynny yn handi pam mae rhywun angen syniadau!

11. Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?



Dim felly – dwi'n hoffi ysgrifennu am bob math o bethau, o anifeiliaid yn y sw i fôr-ladron.

12. Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

I fod yn awdur da mae'n rhaid i ti ddarllen lot. Darllen bob dim fedri di – cefn y bocsgrawnfwyd amser brecwast, y botel siampw, cylchgrawn, papur newydd, newyddion ar y we, comics ... popeth!

13. Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?

Y peth gorau yw cyfarfod plentyn sydd wir wedi mwynhau llyfr dwi wedi ei ysgrifennu. Y peth gwaethaf ydi ... alla i ddim meddwl am unrhyw beth drwg am fod yn awdur!



Hoff lyfr o 'mhlentyndod:

Llyfr Mawr Alffi a Lili Mei

Hoff gymeriad mewn llyfr:

Ron Weasley o gyfres Harry Potter

Hoff le:

Traeth Nefyn

Hoff fwyd:

Tost a Nutella

Hoff air:

Mrengian!

(Gair Pen Llŷn sy'n golygu pan mae rhywun yn hongian arnoch chi)

Superpower o ddewis:

Gallu hedfan

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol:

Instagram

Beth sy'n gwneud i mi wenu:

Babis

Swydd tase chi dim yn awdur?

Swydd ddelfrydol?

Plymiwr Tanfor

Top tip i ddarpar awduron:

Darllenwch a byddwch yn hyderus